# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Mawrth 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## Ar y safle - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

### 5 Papurau i'w nodi

(13.45 - 13.50)

**5.7 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-23 - Papur 20 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Llywydd, 3 Mawrth 2023

**5.8 SL(6)325 - Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 3 - 11)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-23 - Papur 21 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 1 Mawrth 2023

LJC(6)-08-23 - Papur 22 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 15 Chwefror 2023

LJC(6)-08-23 - Papur 23 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 14 Chwefror 2023

LJC(6)-08-23 - Papur 24 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 18 Ionawr 2023

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/71/2023

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddBusiness@senedd.wales

03 Mawrth 2023

Annwyl Elin,

Cyflwynwyd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 22 Medi a gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) arno ar 3 Tachwedd, ac yna LCM Atodol (SLCM) ar 21 Rhagfyr ac eto ar 6 Chwefror.

Cynhaliwyd y Cyfnod Pwyllgor ar 16 Chwefror. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ac rydym yn dadansoddi'r manylion i weld a yw'r rhain yn sbarduno'r gofyniad i ymgymryd ag SLCM pellach. Rhannodd Llywodraeth y DU rywfaint o gynnwys polisi ynglŷn â'r diwygiadau arfaethedig, ond heb rannu'r holl fanylion am y gwelliannau a gyflwynwyd. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd gwelliannau perthnasol, nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth, yn cael eu cyflwyno yn ystod y dyddiau pwyllgor dilynol sydd wedi'u trefnu ar gyfer 23 Chwefror, 28 Chwefror a 2 Mawrth a gallai hyn arwain at gytuno ar welliannau pellach i'w cynnwys yn y Bil.

Byddwn yn paratoi un SLCM yn ymdrin â'r holl welliannau perthnasol a gyflwynwyd ar gyfer y Cyfnod Pwyllgor. Rwy'n cydnabod y bydd hyn yn golygu y bydd yr SLCM hwn yn cael ei osod dros bythefnos ar ôl cyflwyno'r swp cyntaf o welliannau, ond credaf y bydd hyn yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir ddatblygiad y Bil ac y bydd yn galluogi'r Senedd i graffu'n effeithiol.

Ar hyn o bryd rydym yn rhag-weld cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer dadl ar 14 Mawrth. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn parhau i gadw llygad ar amserlenni'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi a byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ddatblygiadau perthnasol o ran yr amserlen ar gyfer y broses cydsyniad deddfwriaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, y Gweinidog Newid Hinsawdd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/2983/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

1 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu cyn ystyriaeth eich Pwyllgor i'ch hysbysu, yn dilyn ail-osod rheoliadau drafft Gwastraff Pecynnu (Casglu a Chofnodi Data) (Cymru) 2023 yn y Senedd ar 14 Chwefror 2023, mae pedwar mân wall croesgyfeirio wedi cael eu nodi yn y mannau canlynol yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau:

- Paragraff 2(2)(a) – croesgyfeirio at reoliad 11(3)(a) ond yn hytrach dylai groesgyfeirio at reoliad 11(4)(a).
- Paragraff 2(2)(b) – croesgyfeirio at reoliad 11(3)(b) ond yn hytrach dylai groesgyfeirio at reoliad 11(4)(b).
- Paragraff 5 – croesgyfeirio at reoliad 11(3)(b) ond yn hytrach dylai groesgyfeirio at reoliad 11(4)(b).
- Paragraff 7(1) – croesgyfeirio at reoliad 11(3)(b) ond yn hytrach dylai groesgyfeirio at reoliad 11(4)(b).

Mae'r gwallau'n fân iawn a byddaf felly yn sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn cael eu cywiro i ddelio â'r pwyntiau hyn cyn eu gwneud.

Yn ogystal â hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriadau byddaf hefyd yn tynnu sylw Aelodau'r Senedd at y drafodaeth lawn ar y Rheoliadau sydd i'w chynnal ar 14 Mawrth. Mae hyn yn unol â'r camau a nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yn ei ohebiaeth gyda chi ar 18 Ionawr a 15 Chwefror 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

**CYWIRIADAU I OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU**

Diolch i chi am eich llythyr pellach ar y mater hwn dyddiedig 6 Chwefror 2023. Rydych yn gofyn i mi egluro rhai o'r pwyntiau yn fy llythyr dyddiedig 18 Ionawr, a gwneud sylwadau ar ohebiaeth a anfonwyd gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 26 Ionawr 2023.

***Y llythyr dyddiedig 18 Ionawr (oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol)***

1. Mae'r amgylchiadau y caniateir defnyddio slipiau cywiro ynddynt yn gyfyngedig iawn, fel y nodais yn fy llythyr gwreiddiol. Maent hefyd wedi eu hen sefydlu. Mae bodolaeth slipiau cywiro, a'r defnydd ohonynt, yn berthnasol nid yn unig i Offerynnau Statudol Cymru ond hefyd i Offerynnau Statudol y DU, Offerynnau Statudol yr Alban ac mewn perthynas â Rheolau Statudol Gogledd Iwerddon. Gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer Deddfau'r Senedd, Senedd y DU, Senedd yr Alban a Mesurau Cynulliad Gogledd Iwerddon (gan y deddfwriaethau eu hunain ym mhob achos). Mae enghreifftiau diweddar o slipiau cywiro yn cael eu defnyddio ar gyfer Deddfau'r Senedd yn cynnwys un ar gyfer Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 y mis diwethaf, ac un ar gyfer Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ym mis Tachwedd.

2. O ystyried eu natur gyfyngedig iawn a'r amgylchiadau prin y gellir eu defnyddio, roedd eich awgrym eu bod yn gyfystyr â "diffyg democrataidd posibl" yn fy synnu'n fawr. Rwy'n glir iawn fy meddwl nad ydynt. Eu diben yw helpu i sicrhau nad yw gwallau mân iawn yn tarfu ar y sawl sy'n darllen deddfwriaeth.

3. Dibyn y cyfeiriadau yn fy llythyr at *Statutory Instrument Practice* ac Adroddiad Arbennig y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol oedd egluro ein dealltwriaeth o natur fân iawn y camgymeriadau y gellir ymdrin â hwy drwy slip cywiro. Nid yw SIP yn ymdrin â natur

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

benodol deddfwriaeth ddwyieithog, gan nad yw'n rhoi arweiniad ar Offerynnau Statudol Cymru, fel yr wyf wedi egluro. Mae'n fater sy'n berthnasol dros ben i'n hystyriaethau ni ac yn un yr wyf yn fodlon fod y Cofrestrydd OSau hefyd yn ei ddeall yn iawn.

4. Mae'r Cofrestrydd OSau yn ymwybodol iawn bod statws gyfartal i destunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth Cymru, ac mae'n deall pwysigrwydd sicrhau bod camgymeriadau sy'n ymwneud â'r naill destun neu'r llall yn cael eu cywiro'n briodol. Mae tîm cofrestru'r Archifau Gwladol yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau nid yn unig bod cywiriadau yn y ddwy iaith yn briodol, ond bod slipiau cywiro yn mynegi'r cywiriad yn gywir yn y ddwy iaith.

5. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y term penodol "cywiro cyn gwneud" neu "cywiro cyn cyhoeddi" yn cael ei ddefnyddio yn ymatebion y Llywodraeth pan fo hynny'n briodol.

6. Diben y cyfeiriad yn fy llythyr at Weinidog yn dwyn materion i sylw'r Aelodau, naill ai mewn Pwyllgor neu yn ystod y ddadl, oedd egluro y gellid dwyn materion i sylw Aelodau yn ystod y ddadl – hyd yn oed os nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor.

***Y llythyr dyddiedig 26 Ionawr (oddi wrth y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog)***

7. O ran y pwyntiau ym mharagraffau 5 a 6 o'ch llythyr, mae deddfwriaeth sy'n cael ei llunio gan Lywodraeth Cymru yn mynd drwy broses sicrhau ansawdd gadarn. Mae hyn yn cynnwys rhoi dulliau a gwiriadau cymeradwy a phrofedig ar waith. Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 4 o'ch llythyr dyddiedig 26 Ionawr 2023, mae swmp a chymhlethdod y ddeddfwriaeth sydd ei hangen mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r UE yn ddigynsail.

8. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gosod deddfwriaeth ddiffygiol gerbron y Senedd o fwriad. Mae'n bwysig gwahaniaethu'n glir rhwng deddfwriaeth sy'n cynnwys mân gamgymeriadau, pan fo bwriad y polisi yn eglur ac effaith y ddeddfwriaeth heb fod dan fygythiad, a deddfwriaeth sy'n ddiffygiol yn ei chyfanrwydd ac nad yw'n gweithredu fel y bwriadwyd. Gall camgymeriadau ddigwydd pan fo llawer iawn o ddeddfwriaeth gymhleth yn cael ei llunio o fewn amserlen dynn iawn – ac mae'n anffodus iawn pan fo'r rheiny'n cael eu nodi ar ôl i offeryn gael ei osod. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i gywiro'r camgymeriadau. Bydd y dull o wneud hynny yn dibynnu ar ba mor fân neu ba mor ddifrifol yw'r camgymeriadau, a'u heffaith ar yr offeryn yn ei gyfanrwydd.

9. Yna rydych yn gwneud pwynt mwy cyffredinol am dryloywder a hygyrchedd cywiro wrth gofrestru. Credaf fy mod wedi ymdrin â hynny yn fy llythyr dyddiedig 18 Ionawr, ac mae *Statutory Instrument Practice* yn ymdrin â'r mater. Rwy'n argyhoeddedig mai hygyrchedd y ddeddfwriaeth, a sicrhau ei bod yn gywir ar gyfer y defnyddiwr terfynol, yw'r ffactor pwysicaf yma.

10. Gall slipiau cywiro gael eu gwneud unrhyw bryd, ymhell ar ôl i'r offeryn gael ei wneud hyd yn oed, naill ai am fod y camgymeriad yn dod i'r amlwg beth amser yn ddiweddarach neu oherwydd bod capasiti ac adnoddau'r Cofrestrydd OSau yn golygu bod rhaid iddo (yn gwbl briodol) roi blaenoriaeth i gofrestru a chyhoeddi deddfwriaeth newydd. Mae cywiro cyn cyhoeddi, os gellir gwneud hynny, yn osgoi unrhyw oedi ac yn sicrhau, fel yr eglura'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn eu llythyr, bod fersiwn argraffedig offeryn yn cael ei gywiro cyn iddo ddod i rym. Ac yn achos offerynnau drafft sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol, gall y darllenydd gymharu'r fersiwn a gymeradwywyd gan y Senedd â fersiwn Argraffydd y Brenin, sydd ar gael i'w lawrlwytho ar legislation.gov.uk neu i'w brynu.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, ac at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/2983/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

14 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi y bydd Rheoliadau Gwastraff Deunydd Pacio (Casglu a Chofnodi Data) (Cymru) 2023 yn cael ei osod yn fuan cyn i'r Senedd ddod o dan gwmpas y Fframwaith Adnoddau a Gwastraff.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/18/2023

Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ionawr 2023

Annwyl Huw

**CYWIRIADAU I IS-DDEDDFWRIAETH GYMREIG**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr 2022. Rydych wedi codi sawl mater mewn perthynas â slipiau cywiro. Dylwn egluro eu bod yn berthnasol i Offerynnau Statudol (OSau) yn unig, yn hytrach na phob is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru.

Cyn troi at eich prif gwestiynau, rwy'n credu y byddai o gymorth i'r Pwyllgor pe bawn yn gwneud rhai pwyntiau cyffredinol:

1. Rydym yn glir iawn mai dim ond drwy ddeddfwriaeth ddiwygio y gellir cywiro camgymeriadau o sylwedd mewn OS, waeth pa mor fân ydynt. Ond mae hefyd yn bwysig, o ran hygyrchedd ein deddfwriaeth, bod camgymeriadau nad ydynt yn rhai o sylwedd yn cael eu cywiro pryd bynnag y mae hynny'n bosibl, os dylid eu cywiro.

2. Wrth ystyried sut i gywiro camgymeriad mewn OS Cymreig, cawn ein llywio'n bennaf gan Statutory Instruments Practice[1] (SIP). Er nad yw SIP yn darparu arweiniad ar OSau Cymru, yn ymarferol bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn y gweithdrefnau a'r egwyddorion a amlinellir yn Rhannau 3 a 4 wrth lunio, cofrestru a chyhoeddi deddfwriaeth.

3. Mae SIP yn amlinellu sawl dull o gywiro camgymeriadau nad ydynt yn rhai o sylwedd, gan ddibynnu ar y gwall ac ar ba bwynt y mae'r OS yn y broses o wneud, cofrestru a chyhoeddi.

[1] Yr Archifau Gwladol (Tachwedd 2017) *Statutory Instrument Practice*, *5ed rhifyn*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Meini prawf ar gyfer ystyried a ddylid gofyn am slip cywiro***

4. Defnyddir slip cywiro pan fydd yr OS wedi'i gofrestru a'i gyhoeddi. Lluniwyd y broses ar gyfer OSau argraffedig, i raddau helaeth iawn. Caiff slipiau cywiro eu cyhoeddi bob tro y bydd rhywun yn prynu fersiwn argraffedig o OS o'r newydd (a'i anfon hefyd at brynwyr hysbys yr OS); cânt hefyd eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r fersiynau digidol o'r OS (cywiredig) ar legislation.gov.uk.

5. Wrth ystyried a ellir gofyn am slip cywiro, byddwn yn ystyried paragraff 4.7.4 o SIP yn gyntaf. Rhoddwn ystyriaeth hefyd i Adroddiad Arbennig y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol, *Transparency and Accountability in Subordinate Legislation*. Mae'r Cyd-bwyllgor yn glir na ddylid defnyddio slip cywiro i gywiro camgymeriadau mewn is-ddeddfwriaeth os ydynt (neu os ydynt o bosibl) yn golygu newid o sylwedd. At hynny, mae'r Cyd-bwyllgor yn nodi yn ei adroddiad y meini prawf ar gyfer penderfynu a yw slip cywiro yn addas:

   - mae'r camgymeriadau yn rhai mân (er enghraifft, gwall teipio nad yw'n effeithio ar sylwedd yr ystyr);
   - mae'r camgymeriadau yn rhai amlwg;
   - mae testun a lleoliad y cywiriadau yr un mor amlwg, ac
   - mae'r cywiriadau yn rhai mân.

***Cywiro wrth wneud, wrth gofrestru ac wrth gyhoeddi – y broses, y meini prawf a rôl y Cofrestrydd OSau***

6. Mae eich gohebiaeth yn cyfeirio at 'gywiro wrth wneud' a 'chywiro wrth gyhoeddi', sydd ill dau yn dermau sy'n cael eu defnyddio er hwylustod gan y Llywodraeth ac felly gan y Pwyllgor hefyd, ond nad ydynt yn ddisgrifiadau cwbl fanwl gywir o'r pwynt y gwneir y cywiriadau. Rwy'n ymdrin â hyn yn fwy manwl isod, ond mae canlyniad y ddwy broses yr un fath – caiff y gwall ei gywiro cyn cyhoeddi gan sicrhau bod yr OS cywiredig ar gael ar ffurf argraffedig, heb slip cywiro ychwanegol, a bod y fersiwn digidol ar legislation.gov.uk yn adlewyrchu ffurf derfynol yr OS.

7. Bydd 'cywiro wrth wneud' yn digwydd cyn i'r Gweinidog perthnasol wneud yr OS. Os ystyrir bod y cywiriad yn un y gellir ymdrin ag ef drwy slip cywiro (mater a drafodir â'r Cofrestrydd OSau fel arfer, os yw ar gael) neu os yw'n fater y mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i'w gywiro cyn gwneud yr OS – er enghraifft pan fydd y Senedd yn ystyried OS sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol ddrafft – yna caiff yr OS drafft ei gywiro cyn ei gyflwyno ar gyfer ei wneud. Wedyn caiff y fersiwn "fel y'i gwnaed" ei gofrestru yn y ffordd arferol.

8. Mae cywiro wrth gyhoeddi yn derm a ddefnyddiwn yn aml, ond yn ymarferol mae'n cyfeirio at gywiro fel rhan o'r broses gofrestru. Mewn achosion o'r fath rydym yn dilyn yr arweiniad ym mharagraff 4.7.13 o SIP, sy'n nodi:

   *If it is in the nature of something that could be covered by a correction slip… this can be remedied.*

9. Prin iawn yw'r amser sydd ar gael i wneud hyn – ychydig oriau yn unig fel rheol – ac ymdrinnir â'r mater drwy drafod â'r Cofrestrydd OSau unwaith y mae'r OS wedi'i gyflwyno ar gyfer ei gofrestru ond cyn bod y cofrestriad wedi'i gwblhau.

10. Os yw OS wedi'i gofrestru ond heb ei gyhoeddi eto, mae SIP yn ei gwneud yn glir y bydd angen cywiro'r camgymeriadau ar ôl cyhoeddi (yn y modd priodol gan ddibynnu ar natur y camgymeriad).

*Camgymeriadau mewn offerynnau cadarnhaol drafft*

11. Ar y cyfan, os yw'r camgymeriad yn un y gellid defnyddio slip cywiro i'w gywiro, yna byddai'n well gennym ymdrin â hynny drwy ei gywiro wrth (h.y. cyn) ei wneud. Os yw'n fater mân iawn, ond heb fod yn un a fyddai'n addas ar gyfer slip cywiro, o angenrheidrwydd, yna efallai y byddwn hefyd yn ceisio ymdrin â'r mater hwn wrth (h.y. cyn) ei wneud. Gall y Gweinidog dynnu sylw'r Aelodau at y materion hyn naill ai mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor neu yn ystod y ddadl ar yr offeryn.

12. Ar gyfer materion sydd â mwy o sylwedd, yna byddwn naill ai'n ceisio tynnu'r offeryn yn ôl a'i ailosod, neu os nad oes digon o amser ar gyfer hynny, efallai y byddwn yn ymrwymo i gyflwyno offeryn diwygio.

13. Mae'n amlwg fod y dull y mae angen inni ei fabwysiadu yn dibynnu ar y gwall a nodwyd, yr elfen o frys sydd ynghlwm â gwneud yr offeryn, a'r amser sydd ar gael i ddatrys y mater. Yn yr achosion hyn bydd bob amser yn well gennym gywiro'r offeryn drafft a'i ailosod gerbron y Senedd. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am yr adegau hynny y mae wedi cytuno i ystyried yr Offeryn Statudol diwygiedig yn fwy cyflym.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ac at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution